**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 83 – Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9

## Fy Mabinogi i, Mererid Hopwood

Mae'n wir nad wyf i'n enwog,
dwi ddim yn fawr fy sôn,
does neb yn holi am lofnod
pan dwi'n cerdded lawr y lôn.
Ond rwy'n perthyn i Bwyll a Rhiannon,
fi piau Dyfed i gyd,
mae gwaed Pryderi'n fy nghalon,
a Gwydion a'r geiriau hud.

Mae teyrnas y Gogledd yn f'enw,
mae'r Canolbarth a'r Dwyrai a'r De
i gyd yn rhan o'm llinach,
mae gen i gefndryd ym mhob lle!
Rwy'n deall iaith y dylluan,
a deall y drudwy a'i chân,
gallaf siarad â'r afon arian
a sgwrsio â'r meillion mân.

Gallaf edrych i'r môr a gweld ynys
na wêl pobl ddieithr, mae'n wir,
am mai fi piau holl gantre'r gorwel
a'r aur rhwng y dŵr a'r tir.
Ond does braidd neb yn gwybod
am wyrth fy nghyfrinach i,
a mod i'n perthyn i'r Mabinogi …
yn union 'run fath â thi!